Calsiwm carbonad

Enw arall ar Galsiwm Carbonad ($CaCO_3$) ydy calch. Mae'n adnodd naturiol pwysig, a dim ond trwy gloddio y mae'n bosibl cael gafael arno.

Gall calsiwm carbonad gael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd, ond mewn gwaith adeiladu y mae'n cael ei ddefnyddio fwyaf. Roedd y calchfaen a oedd yn cael ei gloddio o'r Mynydd Du yn cael ei losgi i dymheredd uchel nes ei droi'n Galsiwm Ocsid (sydd hefyd yn cael ei alw'n galch brwd). Roedd ffermwyr yn defnyddio calch brwd i niwtraleiddio asidedd yn y pridd fel bod cnydau'n tyfu'n well.

Mae calsiwm carbonad wedi'i ffurfio o weddillion miliynau ar filiynau o greaduriaid môr bychain a oedd wedi suddo i waelod trofannol bas pan fuon nhw farw 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl, pan oedd Prydain ar y cyhydedd! Dros amser, mae'r gweddillion hyn wedi ffurfio craig waddodol. Mae ffosilau i'w cael yn aml mewn calchfaen.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development Fund
Canolfan y Mynydd Du Black Mountain Centre
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Waterfront Museum